EDUCATION WORKFORCE COUNCIL
CYNGOR Y GWEITHLU ADDYSG

COFNODION DRAFFT DEUNAWFED CYFARFOD
CYNGOR Y GWEITHLU ADDYSG

DYDDIAD: 13 Mawrth 2020

LLEOLIAD: Swyddfeydd CGA, 10fed Llawr, Eastgate House, Caerdydd

Yn bresennol:
Aelodau:

Angela Jardine	Paul Croke
Berni Tyler	Steve Drowley
Dave Williams	Rosemary Lait
Anne Pitman	Kelly Edwards
Kevin Pascoe (Skype)	

Ymddiheuriadau:

Clare Jones	Jane Setchfield
Ian Roberts	Eithne Hughes
Gwawr Taylor	

Swyddogion:

Hayden Llewellyn	Prif Weithredwr
Elizabeth Brimble	Cyfarwyddwr Cymwysterau, Cofrestru a Phriodoldeb i Ymarfer
Bethan Stacey	Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi
Lisa Winstone	Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
Beverley Curtis	Swyddog Llywodraethu Corfforaethol (cofnodion)

(Cyn y cyfarfod, cafwyd sesiwn friffio am waith y sector dysgu seiliedig ar waith gan Jeff Protheroe *Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru*)

1. Croeso a Sylwadau Agoriadol

1.1 Croesawodd Angela Jardine (*Cadeirydd*), yr aelodau i ddeunawfed cyfarfod Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA).

1.2 Roedd ymddiheuriadau wedi'u derbyn gan Clare Jones, Jane Setchfield, Ian Roberts, Eithne Hughes a Gwawr Taylor. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod mwyafrif yr ymddiheuriadau a oedd wedi dod i law o ganlyniad i'r pandemig Coronafeirws. Nododd yn unol â Rheolau Sefydlog CGA, fod cworwm ar gyfer cyfarfod y Cyngor ac felly bod modd bwrw ymlaen. Nododd hefyd fod sylwadau wedi'u derbyn cyn y cyfarfod gan Eithne Hughes.

1.3 Roedd ymddiheuriadau hefyd wedi dod i law gan gydweithwyr yng Nghyngor Addysgu Iwerddon, Cyngor Addysgu Cyffredinol Gogledd Iwerddon a Chyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban.

1.4 Hysbysodd y Cadeirydd yr aelodau'n ffurfiol fod cyn-Brif Weithredwr a Phrif Weithredwr cyntaf Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, Gary Brace, wedi marw ym mis Ionawr 2020. Cadarnhaodd ei bod wedi mynychu ei angladd a gwahoddodd y Cyngor i dewi am funud er cof amdano.

1.5 Cyfeiriwyd yr aelodau at ohebiaeth a gyflwynwyd i'r Gweinidog Addysg gan Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru, dyddiedig 10 Chwefror 2020. Amlygodd y Cadeirydd y goblygiadau posibl i CGA a nodwyd y byddai'r rhain yn cael eu trafod ymhellach o dan eitem CGA 01/20 ar yr agenda.

1.6 Cyflwynwyd datganiad o ddiddordeb a bywgraffiad y we ar gyfer pob aelod. Gofynnwyd i'r aelodau wirio cywirdeb y dogfennau hyn a'u dychwelyd i'r Swyddog Llywodraethu Corfforaethol. Atgoffwyd yr aelodau bod rhwymedigaeth arnynt i hysbysu swyddogion os yw unrhyw rai o'u manylion neu eu diddordebau'n newid yn ystod eu tymor. Gofynnwyd hefyd i aelodau gwblhau'r ffurflenni monitro amrywiaeth a oedd wedi'u cynnwys yn eu pecynnau unigol.

1.7 Am fod diwedd y flwyddyn ariannol yn agosáu, gofynnwyd i'r aelodau gyflwyno unrhyw hawliadau oedd heb eu hawlio i'r Swyddog Llywodraethu Corfforaethol erbyn dim hwyrach na 27 Mawrth 2020. Ni fyddai unrhyw hawliadau a fyddai'n dod i law y tu hwnt i'r dyddiad hwn yn cael eu prosesu. Yn unol â llawlyfr cyllid CGA, atgoffwyd yr aelodau fod gofyn i'r holl hawliadau gael eu cyflwyno o fewn wyth wythnos o dalu'r gost.

1.8 Gwahoddodd y Cadeirydd y Prif Weithredwr i nodi bod swyddogion wedi penderfynu gohirio'r dasg o adolygu'r gyfres o bolisïau Llywodraethu Corfforaethol am flwyddyn. Esboniodd fod swyddogion wedi gwneud y penderfyniad yn unol â thymor pedair blynedd y Cyngor er mwyn i bolisïau sefydlog fod yn eu lle pan fyddai pob Cyngor newydd yn cael ei benodi. Nododd y byddai hyn yn sicrhau parhad a hefyd yn cynorthwyo yn y broses recriwtio. Dim ond am y flwyddyn nesaf byddai'r gohiriad gan adolygu y byddai'r adolygiad nesaf yn cael ei gynnal yn 2022 ac yn parhau bob dwy flynedd wedi hynny i gyd-fynd bob yn ail â thymor pedair blynedd pob Cyngor. Nododd yr aelodau y penderfyniad a chytunant gyda'r dull gweithredu a fabwysiadwyd.

1.9 Atgoffwyd yr aelodau bod eu cyfarfodydd adolygu blynyddol yn cael eu cynnal yn ystod yr wythnos yn dechrau 23 March 2020. Diolchodd i'r aelodau am eu hymatebion prydlon ac am gwblhau eu ffurflenni.

1.10 Nodwyd bod y calendr presennol ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgorau yn ei le tan fis Mawrth 2021. Byddai dyddiadau y tu hwnt i hyn yn cael eu drafftio a'u cyflwyno gerbron y Pwyllgor Gweithredol yn ei gyfarfod nesaf. Gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i gysylltu â'r Swyddog Llywodraethu Corfforaethol i roi gwybod i swyddogion am unrhyw ddiwrnodau yn ystod yr wythnos a fyddai'n peri trafferthion parhaus iddyn nhw o ran eu presenoldeb.

2. Datganiadau o Ddiddordeb

2.1 Cafwyd datganiad o ddiddordeb parhaus gan un aelod yn eitem 03/20 ar yr agenda gan nodi ei gysylltiad â gwaith ETS Cymru am ei fod yn Gadeirydd arno. Nododd yr aelodau'r datganiad.

3. Gohebiaeth ac Adroddiad y Cadeirydd

3.1 Hysbyswyd yr aelodau gan y Cadeirydd ei bod hi a'r Prif Weithredwr wedi cyfarfod â'r Gweinidog Addysg ar 25 Chwefror 2020 ar gyfer cyfarfod diweddariad blynyddol a oedd wedi'i gynllunio. Adroddodd fod y cyfarfod yn gadarnhaol iawn a bod trafodaethau wedi'u cynnal hefyd ynghylch ei bwriad i ymgynghori ar rymoedd CGA i osod gorchmynion atal dros dro a chofrestru yn y sector annibynnol.

3.2 Atgoffodd yr aelodau y byddai'r Gweinidog Addysg yn mynychu cyfarfod nesaf y Cyngor ar 10 Gorffennaf 2020. Anogodd yr aelodau'n gryf i sicrhau eu bod ar gael i fynychu'r cyfarfod arbennig hwn.

4. Cofnodion drafft Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd 15 Tachwedd 2019

4.1 Tywysodd y Cyngor y Cyngor drwy gofnodion drafft 15 Tachwedd 2019 fesul tudalen. Roedd yr aelodau'n fodlon cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod hwnnw.

<u>Materion yn Codi</u>

4.2 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

5. Derbyn hysbysiad o unrhyw faterion y dymunai aelodau eu codi mewn perthynas â'r eitemau 'Er Gwybodaeth' (18-21)

5.1 Ni hysbyswyd o unrhyw faterion.

6. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gweithredol a gynhaliwyd 24 Ionawr 2020

6.1 Cyflwynwyd y cofnodion hyn gan y Prif Weithredwr. Adroddodd nad oedd unrhyw faterion yn codi i'w tynnu at sylw'r aelodau nad oeddent yn cael eu hystyried yn ddiweddarach yn yr agenda.

6.2 Ni chododd yr aelodau unrhyw ymholiadau.

7. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio a gynhaliwyd 24 Ionawr 2020

7.1 Cyflwynwyd y cofnodion hyn gan Steve Drowley, Cadeirydd y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio. Adroddodd nad oedd unrhyw faterion yn codi i'w tynnu at sylw'r aelodau nad oeddent yn cael eu hystyried yn ddiweddarach yn yr agenda.

7.2 Ni chododd yr aelodau unrhyw ymholiadau eraill.

8. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Chraffu a gynhaliwyd 27 Ionawr 2020

8.1 Yn absenoldeb Clare Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Chraffu, cyflwynwyd y cofnodion hyn gan Lisa Winstone, (*Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol)*. Adroddodd nad oedd unrhyw faterion yn codi i'w tynnu at sylw'r aelodau nad oeddent yn cael eu hystyried yn ddiweddarach yn yr agenda.

8.2 Ni chododd yr aelodau unrhyw faterion eraill.

9. Adroddiad y Prif Weithredwr CGA 01/20

9.1 Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Weithredwr a roddodd ddiweddariad i'r Cyngor am ystod o faterion nad oeddent yn cael eu trafod yn unman arall ar yr agenda, a gwahoddwyd sylwadau ac ymholiadau'r aelodau.

9.2 Roedd y diweddariad cyntaf mewn perthynas ag ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: Diwygio Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018. Esboniodd fod swyddogion wedi derbyn drafftiau diwygiedig o'r holiadur ddwywaith a gyflwynwyd i'r ONS a oedd wedi'i ddefnyddio i ffurfio sail y penderfyniad i argymell ailddosbarthu CGA. Nid oedd swyddogion yn fodlon ar y naill ddrafft na'r llall ac felly roeddent wedi'u dychwelyd i Lywodraeth Cymru am ystyriaeth bellach. Yn dilyn trafodaethau pellach gyda Llywodraeth Cymru, cytunwyd y byddai'r Prif Weithredwr yn drafftio'r fersiwn diwygiedig i'w gyflwyno ac yn ei drosglwyddo i Lywodraeth Cymru am ei sylwadau.

9.3 Ymhellach i'r mater, nododd y Prif Weithredwr fod Lisa Winstone wedi mynychu cyfarfod yn ddiweddar gyda Chyfarwyddwyr Cyllid nifer o gyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru. Roedd swyddogion yn y cyfarfod wedi cadarnhau y byddai oedi i'r broses wedi i nifer o gyrff godi llawer o bryderon. Roedd swyddogion wedi ysgrifennu'n ffurfiol at Lywodraeth Cymru i wrthwynebu grwpio CGA gyda sefydliadau eraill yn yr ystyriaethau a nododd fod CGA yn unigryw am mai rheoleiddiwr ydoedd ac nid corff a noddir gan Lywodraeth Cymru. Gofynnwyd hefyd i ddyddiad y penderfyniad gael ei wthio nôl i fis Rhagfyr 2021 i ystyried y ffaith bod CGA yn cwestiynu ei ailddosbarthiad arfaethedig. Roedd swyddogion yn aros am ymateb pellach yn hyn o beth, fodd bynnag, roedd cydnabyddiaeth o'r ohebiaeth wedi'i derbyn.

9.4 Mewn ymateb i ymholiad gan aelod, esboniodd y Prif Weithredwr fod CGA a'i chwaer-gynghorau oll mewn sefyllfaoedd gwahanol mewn perthynas â chysylltiad y Llywodraeth a chyllid ac felly nid ellid eu cymharu yn y sefyllfa sydd ohoni.

9.5 Cyfeiriwyd yr aelodau at baragraff pump a adroddodd fod ymgynghoriad wedi'i dderbyn gan Swyddfa Archwilio Cymru. Er nad oedd mwyafrif y cwestiynau'n berthnasol i CGA, roedd y Cyngor wedi'i restru fel un o'r cyrff y byddai angen diwygio'r ddeddfwriaeth yn ei gylch er mwyn "rheoleidd-dra". Roedd swyddogion wedi ymateb i Swyddfa Archwilio Cymru gan ddweud na fyddai'n briodol i CGA gael ei gynnwys mewn ymgynghoriad o'r fath tra bod cwestiwn parhaus gyda Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r mater ailddosbarthu.

9.6 Gan gyfeirio'r aelodau at baragraffau 6-8, nododd y Prif Weithredwr fwriad y Gweinidog i ymgynghori ynghylch CGA yn cofrestru ac yn rheoleiddio staff yn y sector annibynnol. Byddai cynigion i CGA gael y grym i osod gorchmynion atal dros dro hefyd yn cael eu cynnwys yn yr un ymgynghoriad. Nododd fod achos uchel ei broffil yn ddiweddar mewn perthynas â'r sector annibynnol wedi denu cefnogaeth bellach i CGA allu ymgymryd â chofrestru yn y sector. Cyfeiriodd yr aelodau at y llythyr a ddosbarthwyd at y Gweinidog ar y mater gan y Comisiynydd Plant. Nododd yr aelodau'r cynnydd yn hyn o beth yn gadarnhaol.

9.7 Fel yr amlinellwyd ym mharagraff naw, roedd Llythyr Cynnig Grant blynyddol CGA at Lywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 yn cynnwys sawl maes gwaith ychwanegol lle byddai angen cyllid. Fel diweddariad i'r papur, nododd fod y drafft bellach wedi'i gyflwyno a bod swyddogion yn disgwyl ymateb gan Lywodraeth Cymru.

9.8 Gofynnodd y Prif Weithredwr yr aelodau i nodi nifer uchel y grwpiau rhanddeiliaid allweddol lle roedd gan CGA gynrychiolaeth fel y rhestrwyd ym mharagraff 11. Nododd yn arbennig y 12 grŵp ychwanegol a oedd wedi'u cynnwys ar y rhestr ers cyfarfod diwethaf y Cyngor. Adroddodd hefyd fod Strategaeth Gwaith Ieuenctid newydd i Gymru wedi'i lansio ym mis Mehefin 2019 gyda Chynllun Gweithredu yn dechrau ym mis Hydref 2019. Roedd CGA wedi'i benodi ers hynny i ddau o'r pedwar o grwpiau cyfranogi i symud y cynllun yn ei flaen. Byddai digwyddiad yn cynnwys pob un o'r pedwar grŵp yn cael ei gynnal ar 19 Mawrth 2020. Byddai'r aelodau'n parhau i dderbyn yr wybodaeth ddiweddaraf yn y maes gwaith hwn.

9.9 Fel diweddariad pellach i'r papur, esboniodd y Prif Weithredwr fod uwch dîm rheoli CGA yn parhau'n wyliadwrus parthed cyngor Llywodraeth y DU am y pandemig Coronafeirws ac yn gohebu gyda staff yn rheolaidd wrth i ddiweddariadau gael eu cyhoeddi. Byddai'r aelodau yn cael gwybod am unrhyw benderfyniadau gweithredol a allai effeithio ar weithrediad CGA.

10. Cynlluniau Strategol a Gweithredol drafft CGA a chynlluniau cysylltiedig CGA 02/20

10.1 Cyflwynwyd y papur hwn gan Bethan Stacey *(Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi*) a chyflwynodd gyfres y cynlluniau drafft i'r aelodau eu hystyried.

10.2 Roedd y cynlluniau wedi'u llunio yn unol ag adborth yr aelodau yn dilyn y sesiwn gynllunio a gynhaliwyd yn dilyn cyfarfod diwethaf y Cyngor ym mis Tachwedd 2019. Roedd staff CGA hefyd wedi cymryd rhan mewn sesiwn gynllunio ym mis Rhagfyr 2019 i ddatblygu drafftiau'r cynlluniau ymhellach. Esboniwyd bod drafftiau cyntaf y cynlluniau wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor Gweithredol yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2020 a'u bod wedi'u hargymell wedi hynny i'r Cyngor eu cymeradwyo.

10.3 Gwahoddodd yr aelodau'n arbennig i nodi bod dau gynllun o'r gyfres yn rhai a fydd ar gael yn gyhoeddus ac yn unol ag arfer gorau felly, eu bod wedi bod yn destun ymgynghori cyhoeddus drwy wefan CGA. Byddai'r ymgynghoriad yn dod i ben yn fuan yn dilyn sawl wythnos a hyd yma, nid oedd unrhyw sylwadau wedi dod i law.

10.4 Ers i'r Pwyllgor Gweithredol drafft gael golwg o'r gyfres o gynlluniau, roedd y gyllideb ddrafft wedi'i datblygu gan danategu'r gweithgareddau ynddynt. Gwahoddodd Bethan Stacey Lisa Winstone i amlygu'r ystyriaethau cyllidebol i aelodau'r Cyngor.

10.5 Cyfeiriwyd yr aelodau at baragraff pedwar a oedd yn adrodd ar y diffyg a ragamcanwyd ar gyfer 2020-21. Nododd fod y diffyg a adroddwyd ar gyfer y flwyddyn yn uwch na'r hyn a ragamcanwyd oherwydd nifer o ffactorau cyfrannol na ellid bod wedi eu rhagfynegi wrth fynd ati i ddechrau cynllunio yn y flwyddyn flaenorol.

10.6 Gan gyfeirio'r aelodau at baragraffau 5-8, eglurodd y meysydd gwariant a oedd wedi cynyddu'r diffyg ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21. Nododd yn arbennig y cynnydd sylweddol i gyfraddau cyfraniadau cyflogwyr ar gyfer Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Roedd hyn wedi'i gyllido gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn gyntaf, fodd bynnag byddai angen i CGA gyllido hyn o 2020-21 ymlaen.

10.7 Nododd y Prif Weithredwr fod y diffygion yn anochel o ran gwariant CGA yn dal i fyny â'i weithgarwch ers ei sefydlu yn 2015. Rhoddodd sicrwydd i'r aelodau mewn perthynas â balansau'r cronfeydd wrth gefn ond nododd y byddai'r rhain yn cael eu gostwng i gyflawni eu pwrpas, a nododd yn arbennig yr angen am gronfa ddata newydd.

10.8 Nododd at hynny fod y ddeddfwriaeth am y ffi gofrestru yn nodi na fyddai'n cynyddu am dair blynedd. Am mai yn 2015 roedd yr adolygiad diwethaf, roedd y cyfnod adolygu ymhell tu hwnt i'r tair blynedd, fodd bynnag roedd CGA yn awyddus i gynnal lefel y ffi bresennol i gofrestreion cyhyd â phosibl, cyn gofyn i Lywodraeth Cymru am gynnydd yn y ffi. Roedd swyddogion yn parhau i fonitro'n ofalus gost ffi rheoleiddwyr proffesiynol eraill ac roedd CGA yn is na phroffesiynau eraill a'i gyfoedion rheoleiddio addysgu o amgylch y byd, a hynny i raddau sylweddol mewn llawer o achosion.

10.9 Ychwanegodd y Cadeirydd fod CGA yn parhau i fod yn ymwybodol iawn o gostau wrth ystyried ei wariant a chostau rhedeg y sefydliad. Dim ond os tybiwyd bod angen gwario y byddai hynny'n digwydd.

10.10 Gan ymateb i ymholiad aelod am y Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft, nododd Bethan Stacey fod swyddogion wedi gwneud gwaith sylweddol o ran adolygu'r dull gweithredu yn hyn y beth. Roedd y cynllun yn cynrychioli cam cyntaf y gwaith o drawsnewid a byddai gwaith pellach yn parhau i gael ei gwblhau ochr yn ochr â'r Cynllun ei hun.

10.11 Gan gyfeirio at yr iaith a ddefnyddiwyd, awgrymodd un aelod y dylid adolygu'r gyfres gyfan er mwyn sicrhau bod yr egwyddorion yn berthnasol i'r holl gategorïau cofrestreion. Nododd yn arbennig y defnydd o'r gair 'teaching' yn y ddogfen Saesneg ac awgrymodd y dylid defnyddio'r gair 'educating' am 'addysgu' ynddi lle bynnag y bo modd. Cytunodd y swyddogion i ystyried hyn eto a diwygio'r Cynllunio yn unol â hynny.

10.12 Awgrymwyd y gallai fod yn fuddiol cynnwys allwedd i'r acronymau a ddefnyddiwyd ar gyfer darllenwyr y Cynlluniau, yn arbennig y dogfennau fyddai ar gael yn gyhoeddus er mwyn sicrhau bod dealltwriaeth lawn ohonynt ar draws yr holl gategorïau cofrestreion. Nododd y swyddogion y pwynt hwn.

10.13 Nododd yr aelodau ambell i fân wall gramadegol i'w cywiro. Gyda'r cafeat bod yr amodau uchod yn cael eu hystyried, roedd yr aelodau'n fodlon cymeradwyo'r gyfres o Gynlluniau.

11. Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru CGA 03/20

11.1 Cyflwynodd Bethan Stacey y papur hwn gan ddarparu i'r aelodau adroddiad cynnydd am y gwasanaeth newydd fydd CGA yn ei ddarparu yn dilyn ymarfer tendro llwyddiannus ar gyfer y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru.

11.2 Esboniodd fod CGA, mewn partneriaeth â Safonau Addysg Hyfforddiant (ETS) a chyda chefnogaeth cydweithwyr, sef y Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid (PYOG), Cyngor Cymreig Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS) a'r Grŵp Asiantaethau Hyfforddi (TAG), wedi cyflwyno cynnig ar 13 Tachwedd 2019 i ennill dyfarniad fel cyflenwr ar gyfer y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru. Byddai gofyn i'r cyflenwr llwyddiannus barhau i ddarparu'r Dyfarniad a'i ddatblygu ymhellach ar draws darparwyr gwaith ieuenctid gan gynnwys yr holl awdurdodau lleol a sefydliadau gwirfoddol.

11.3 Ar 23 Rhagfyr 2019, hysbysodd Llywodraeth Cymru CGA fod y cynnig wedi bod yn llwyddiannus. Yn dilyn cyfnod segur a ddaeth i ben ar 2 Ionawr 2020, derbyniwyd hysbysiad pellach i gadarnhau dechrau'r contract o 13 Ionawr 2020.

11.4 Esboniodd Bethan Stacey fod gwerth y contract oddeutu £75,000 o flwyddyn. Gan ymateb i ymholiad aelod, nododd fod y costau wedi'u hamcangyfrif yn drylwyr ond y byddai swyddogion yn monitro'r gwariant yn agos ar gyfer y gwaith ac yn parhau i gysylltu â Llywodraeth Cymru. Gan gyfeirio'r aelodau at baragraff wyth, gwahoddodd Lisa Winstone i esbonio'r gofynion ariannol mewn perthynas â CGA yn ennill y contract.

11.5 Nododd Lisa Winstone y byddai'r incwm blynyddol o'r contract yn golygu y byddai CGA yn mynd y tu hwnt i'r trothwy cofrestru ar gyfer TAW ar gyfer y chwe mis nesaf ac felly roedd swyddogion yn ceisio cyngor cyfreithiol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ar y mater.

11.6 Cyfeiriodd Bethan Stacey yr aelodau at baragraffau 9-15 ac at atodiad A a roddodd amserlen fanwl ar gyfer camau bwriadedig y gwaith yn y misoedd nesaf. Nododd yn arbennig y cyfarfodydd rheolaidd gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a'r cyfarfod cychwynnol cadarnhaol a gynhaliwyd gydag Aseswyr ar 4 Mawrth 2020.

11.7 Hysbyswyd y Cyngor bod gwaith recriwtio ar droed ar gyfer swydd a oedd newydd ei datblygu fel Swyddog Datblygu'r Marc Ansawdd. Y bwriad oedd cynnal y cyfweliadau ar gyfer y swydd ar 31 Mawrth 2020 a byddai'r ymgeisydd llwyddiannus yn dechrau yn y swydd yn fuan wedyn.

11.8 Nododd yr aelodau eu diolchiadau i'r aelod o'r Cyngor, Steve Drowley, am ei waith a'i gefnogaeth fel Cadeirydd ETS Cymru yn gweithio ar y prosiect. Diolchodd ef hefyd i'r swyddogion a nododd y cydweithredu cadarnhaol wrth symud y gwaith yn ei flaen.

11.9 Roedd yr aelodau'n fodlon derbyn yr adroddiad cynnydd.

12. Hyrwyddo Gyrfaoedd ym myd Addysg CGA 04/20

12.1 Cyflwynwyd y papur hwn gan Bethan Stacey a esboniodd mai un o brif swyddogaethau CGA o dan Ddeddf Addysg (Cymru) oedd hyrwyddo gyrfaoedd yn y gweithlu addysg. Yn y ddeddfwriaeth, nodwyd bod CGA yn gallu cyflawni'r gwaith hwn ar gais Llywodraeth Cymru. Byddai angen cymorth grant ar gyfer gwaith o'r fath.

12.2 Adroddodd fod swyddogion wedi gweithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a'r cyflenwr 'Cowshed' ar roi'r brand ar ei newydd wedd yn ei ffurf derfynol a oedd wedi bod yn destun ymgynghori ymysg rhanddeiliaid allweddol. Yn dilyn y gwaith hwn, roedd y Gweinidog Addysg bellach wedi cytuno ar 'Educators Wales / Addysgwyr Cymru' fel enw'r brand newydd.

12.3 Gwahoddodd yr aelodau i nodi'r gwaith parhaus ar ddatblygu'r llwyfan digidol a oedd i fod i gael ei gwblhau erbyn 31 Mawrth 2020. Roedd y swyddogion yn cyfarfod yn rheolaidd â rhanddeiliaid allweddol i drafod y llwyfan, gan sicrhau ei fod yn addas at y diben ac o safon uchel. Gofynnwyd i'r aelodau nodi'r gwaith ymgysylltu hwn fel yr amlinellwyd yn atodiad A.

12.4 Drwy un cam tendro unigol, roedd 'Cowshed' wedi'i gaffael i ddatblygu cynnwys perthnasol ar gyfer y llwyfan digidol hyd at werth £50,000 ac roedd hyn i fod i gael ei gwblhau erbyn canol Ebrill 2020. Byddai'r swyddogion yn parhau i fonitro gwariant ond nodwyd mai Llywodraeth Cymru oedd yn cyllido'r gwaith.

12.5 Gan gyfeirio'r aelodau at baragraffau 17-20, adroddodd fod CGA wedi cael cais i gyfranogi ochr yn ochr ag asiantaethau eraill ar brosiect i gefnogi blaenoriaeth y Gweinidog i amrywio'r gweithlu ysgolion mewn perthynas â chynrychiolaeth PDdLlE (BAME). Amlinellodd gyfranogiad CGA gan gynnwys rheoli prosiect cam 2 a nododd ei bod yn debygol y byddai'n cyfranogi yng ngham 3. Gan ymateb i ymholiad aelod, nododd fod y gwaith yn ei gamau cynnar iawn ac felly y byddai gwaith manylach ar gyngor polisi yn y maes hwn yn bosibl unwaith i'r gwaith o gasglu data a'i ddadansoddi wedyn gael ei gwblhau.

12.6 Nodwyd y byddai gweledigaeth wreiddiol Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo gwaith gyrfaoedd yn cael ei hanelu at athrawon ysgol ac felly diolchodd yr aelodau i'r swyddogion am eu dyfalbarhad wrth sicrhau bod y brandio'n berthnasol i bob un o'r saith categori cofrestreion. Nododd y swyddogion eu bod yn parhau i ymgysylltu â phob sector ar y gwaith er mwyn denu eu cefnogaeth wrth symud y gwaith yn ei flaen.

12.7 Roedd yr aelodau'n fodlon derbyn yr adroddiad cynnydd.

13. Adroddiad Cynnydd Priodoldeb i Ymarfer CGA 05/20

13.1 Cyflwynwyd y papur hwn gan Liz Brimble (*Cyfarwyddwr (Cymwysterau, Cofrestru a Phriodoldeb i Ymarfer*) a oedd yn cynnwys diweddariad cyffredinol ar waith Priodoldeb i Ymarfer y Cyngor. Gwahoddwyd yr aelodau i ofyn am eglurhad o unrhyw bwyntiau a oedd yn codi o'r adroddiad. Roedd y papur hefyd yn cynnwys canllaw arfer da diweddaraf CGA ar berthnasau gwaith cadarnhaol.

13.2 Cyfeiriodd yr aelodau at baragraff pump ac atgoffodd yr aelodau bod y Cyngor wedi cyllidebu ar gyfer 65 o wrandawiadau yn y flwyddyn ariannol hon. Fel diweddariad ers ysgrifennu'r papur, cadarnhaodd mai nifer gwirioneddol y gwrandawiadau yr oedd disgwyl iddynt gael eu terfynu erbyn 31 Mawrth 2020 oedd 66. Roedd y swyddogion yn parhau i fonitro nifer y diwrnodau gwrandawiadau yn ogystal â nifer y gwrandawiadau am fod achosion yn amrywio o ran eu hyd a'u cymhlethdod.

13.3 Gan gyfeirio'r aelodau at baragraff saith, amlygodd y ffaith bod swyddogion wedi rhagfynegi y byddai 70 o achosion yn arwain at wrandawiadau ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21. Adroddodd fod swyddogion wedi cwblhau adolygiad llawn yn ddiweddar o weithdrefnau Priodoldeb i Ymarfer CGA. Roedd rhai ystyriaethau wedi codi yn sgil hyn gan gynnwys y posibilrwydd o wneud defnydd helaethach o sancsiynau gwirfoddol a chlirio atgyfeiriadau'n

gynnar. Mae'r swyddogion yn bwriadu bwrw ati i feddwl yn fanylach am y materion hyn a'u dadansoddi, ar y cyd ag ymgynghorwyr cyfreithiol y Cyngor.

13.4 Gan ymateb i ymholiad aelod, nododd Liz Brimble fod swyddogion wedi sicrhau gwell rheolaeth ariannol dros gost y lleoliadau a ddefnyddir i gynnal gwrandawiadau o ganlyniad i'r symud i gynnal y mwyafrif ohonynt yn fewnol am fod hyn yn lleihau unrhyw gostau sydd ynghlwm wrth ganslo lleoliadau allanol yn ogystal â'r ffaith bod y gost ddyddiol yn sylweddol is hefyd. Nododd fodd bynnag bod nifer o ffactorau'n cyfrannu at y costau na allai swyddogion eu rhagweld fel gohirio achosion a chymhlethdodau mewn achosion ac felly ei bod yn hanfodol bod swyddogion yn parhau i fod yn wyliadwrus wrth gyllidebu am y gwaith hwn.

13.5 Fel yr amlinellwyd ym mharagraff 14, adroddodd Liz Brimble ei bod wedi mynychu cyfarfod WLGA i gyfarfod â Rheolwyr Adnoddau Dynol yn uniongyrchol a chodi mater cydymffurfiaeth cyflogwyr â'u rhwymedigaethau deddfwriaethol i atgyfeirio achosion at CGA. Wedi hynny cynhaliodd sesiwn hyfforddiant gyda thîm Adnoddau Dynol un awdurdod lleol ar gais yr awdurdod ac roedd sesiynau pellach wedi'u trefnu gydag awdurdodau eraill.

13.6 Cyfeiriwyd yr aelodau at atodiad C sef y canllaw drafft newydd y bwriadwyd ei ychwanegu at gyfres canllawiau arfer da presennol y Cyngor, sef y Canllaw i Berthnasau Gwaith Cadarnhaol. Esboniodd fod y drafft wedi'i drafod yn flaenorol gan y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio yn ei gyfarfod diwethaf fis Ionawr. Nododd Cadeirydd y Pwyllgor hwnnw fod y Pwyllgor wedi edrych ar y drafft yn fanwl a chadarnhaodd fod y diwygiadau a awgrymwyd wedi'u hymgorffori i'r drafft a oedd gerbron y Cyngor erbyn hyn. Gwahoddodd Liz Brimble sylwadau ac adborth gan yr aelodau.

13.7 Cynigiodd yr aelodau sylwadau cadarnhaol am y drafft, gan nodi eu bod yn teimlo bod y canllaw wedi'i ddatblygu'n dda a'i ysgrifennu'n glir. Nodwyd yn arbennig ganddynt bod yr enghreifftiau y cyfeiriwyd atynt yn berthnasol ac yn ymarferol. Gan ymateb i ymholiad aelod, ymatebodd Liz Brimble drwy ddweud bod cyfeiriadau rheolaidd at gyfres Canllawiau'r Cyngor mewn cyflwyniadau a sesiynau ymgysylltu a gynhaliwyd gan swyddogion CGA.

13.8 Roedd yr aelodau'n fodlon nodi'r adroddiad cynnydd a chymeradwyo dogfen arfer da newydd CGA, y Canllaw i Berthnasau Gwaith Cadarnhaol.

14. Adroddiad Cynnydd SAC, Cofrestru a Sefydlu CGA 06/20

14.1 Cyflwynwyd yr adroddiad cynnydd hwn gan Liz Brimble a ddiweddarodd yr aelodau am waith y Cyngor mewn perthynas â Chofrestru a gweinyddu'r gwaith o ddyfarnu Statws Athro Cymwys (SAC) a Sefydlu.

14.2 Adroddodd fod y broses adnewyddu ffioedd cofrestru wedi dechrau. Fel yr amlinellwyd ym mharagraff chwech, roedd llythyr atgoffa ar gyfer adnewyddu ffioedd cofrestru i'r cofrestreion hynny sy'n talu eu ffioedd yn uniongyrchol wedi'i anfon yn ystod mis Chwefror 2020. Byddai cyfres o nodiadau atgoffa'n parhau i gael eu hanfon at gofrestreion gan arwain at gyfathrebiad terfynol ar 31 Mawrth 2020.

14.3 Nododd fod CGA wedi newid ei strategaeth gyfathrebu eleni am fod cyfathrebiadau papur ond yn cael eu hanfon at y cofrestreion hynny nad oedd cyfeiriad e-bost na rhif ffôn wedi'u cofnodi ar eu cyfer ar y Gofrestr. Roedd yr ohebiaeth e-bost a oedd wedi'i hanfon yn

cynnwys dolen i unigolion dalu adnewyddiad eu ffi ar-lein. Roedd y cyfathrebiad a anfonwyd hefyd yn cynnwys nodyn i gofrestreion wirio bod y manylion a gadwyd ar y Gofrestr yn gywir ac yn gyfoes. Adroddodd fod 30% o'r adnewyddiadau, hyd yma, a oedd wedi'u cwblhau drwy'r dull hwn wedi cynnwys diwygiad i fanylion personol ac felly bod hyn yn ffordd lwyddiannus o boblogi'r Gofrestr gyda gwybodaeth gywir.

14.4 Gan gyfeirio'r aelodau at baragraff deg, atgoffwyd yr aelodau bod swyddogion yn parhau i fonitro gwaith contractiwr cronfa ddata CGA yn agos ers iddo gael ei gaffael gan sefydliad partneriaeth. Roedd Liz Brimble wedi cyfarfod â chyfarwyddwr y cwmni ar 28 Chwefror 2020 i drafod trefniadau contract y Cyngor ac wedi nodi ei hanfodlonrwydd gyda sawl mater parhaus. O ganlyniad i hyn, roedd wedi cael gostyngiad oddi ar gost chwarterol y cynnal a chadw. Roedd yn parhau mewn trafodaethau gyda'r cwmni ac yn dal ati i fonitro'r gwasanaeth.

14.5 Yna cyfeiriodd yr aelodau at baragraff 14 a roddodd ddiweddariad i'r aelodau am bryderon roedd y Prif Weithredwr wedi'u codi gyda Llywodraeth Cymru ynghylch diffygion yn y meini prawf presennol ar gyfer cofrestru ym maes gwaith ieuenctid. Gan ymateb i ymholiad aelod, cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod y pryder a amlinellwyd i Lywodraeth Cymru yn ymwneud â staff gwaith ieuenctid cyflogedig a staff di-dâl fel ei gilydd ac roedd y swyddogion yn dal i ymgysylltu â swyddogion am y mater hwn.

14.6 Roedd yr aelodau'n fodlon derbyn yr adroddiad cynnydd.

15. Ysgrifenyddiaeth i'r IWPRB **CGA 07/20**

15.1 Cyflwynwyd y papur hwn gan y Prif Weithredwr a roddodd ddiweddariad i'r aelodau am rôl y Cyngor fel darparwr yr Ysgrifenyddiaeth annibynnol i Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (IWPRB). Atgoffwyd yr aelodau bod y Cyngor wedi derbyn y rôl ddiwedd mis Chwefror 2019 a bod y gwaith yn cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru.

15.2 Atgoffodd yr aelodau fod gofyn i'r IWPRB ac, yn ei dro, yr Ysgrifenyddiaeth weithredu yn unol ag amserlen eithriadol o dynn ar gyfer y cylch adolygu cyntaf gyda'r holl waith yn cael ei gwblhau rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2019 gan arwain at gyflwyno'r adroddiad terfynol i'r Gweinidog Addysg ar 12 Mehefin 2019.

15.3 Fel diweddariad ers ysgrifennu'r papur, nododd fod yr IWPRB wedi derbyn ei lythyr cylch gwaith bellach a bod y Corff wedi cyfarfod sawl gwaith ers hynny. Adroddodd fod y terfynau amser yn debyg iawn i'r flwyddyn flaenorol ac felly unwaith eto byddai'r IWPRB a CGA gan weithredu fel yr Ysgrifenyddiaeth yn gweithio i gyflawni swmp sylweddol o waith o fewn amserlen eithriadol o gyfyngedig.

15.4 Fel y nodwyd yn flaenorol a chyn i'r llythyr cylch gwaith gael ei gyhoeddi, roedd yr IWPRB wedi nodi nifer o setiau data yr oeddent wedi gofyn i'r Ysgrifenyddiaeth ddod o hyd iddynt. Roedd rhestr y gofynion data yn sylweddol ac roedd tîm data'r Cyngor bellach wedi cyflwyno'r wybodaeth i'r Corff. Roedd yr IWPRB wedi dechrau gwaith ar yr agwedd hon ar yr adroddiad cyn derbyn ei gylch gwaith ac roedd CGA yn parhau i ddarparu cymorth i'r Corff gydag unrhyw ymholiadau oedd gennych yn hyn o beth.

15.5 Gan ymateb i ymholiad aelod mewn perthynas ag anfantais dybiedig rhwng Lloegr a Chymru oherwydd y terfynau amser a roddwyd i'r IWPRB i gwblhau'r adroddiad, cadarnhaodd y Prif

Weithredwr fod yr holl ymholiadau'n cael eu cyfeirio at Gadeirydd yr IWPRB i'w rheoli am mai hwyluso a gweinyddu gwaith y Corff yn ganolog yn unswydd oedd gwaith yr Ysgrifenyddiaeth.

15.6 Roedd yr aelodau'n fodlon nodi'r adroddiad cynnydd.

16. Achredu Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) CGA 09/20

16.1 Cyflwynwyd y papur hwn gan Bethan Stacey a ddarparodd adroddiad cynnydd i'r aelodau am rôl statudol y Cyngor i achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) yng Nghymru.

16.2 Fel yr adroddwyd ym mharagraff dau, roedd y Bwrdd Achredu AGA wedi cynnal asesiadau achredu ar raglenni rhan-amser newydd y Brifysgol Agored, sef y Dystysgrif Addysg i Raddedigion a hefyd ei llwybr AGA Cyflogedig. Byddai'r ddwy raglen yn dechrau'n ffurfiol ym mis Medi / Hydref 2020.

16.3 Amlygodd baragraff tri a adroddodd fod CGA wedi derbyn Datganiad o Fwriad newydd ar ran Prifysgol Bangor a oedd yn cynnig cyflwyno tair rhaglen i'w hachredu ar gyfer y flwyddyn academaidd 2021-22. Roedd y cynnig wedi'i gefnogi'n llawn gan Brifysgol Caer, a oedd mewn partneriaeth flaenorol gyda Phrifysgol Bangor fel CaBan. Cadarnhawyd ganddynt na fyddent yn ailymgeisio am achrediad CGA mewn partneriaeth ac felly byddai CGA yn cyfarfod â Phrifysgol Bangor i drafod ei Datganiad o Fwriad a'r broses achredu ym mis Mawrth 2020.

16.4 Atgoffwyd yr aelodau bod naw rhaglen achrededig ar waith a bod Bwrdd Achredu AGA yn parhau i ymgymryd ag ymweliadau monitro cydymffurfiaeth. Nododd fod swyddogion CGA yn parhau i weithio ag Estyn yn unol â'u Memorandwm llofnodedig o Gyd-ddealltwriaeth er mwyn sicrhau bod monitro cydymffurfiaeth yn gweithio ochr yn ochr â threfniadau arolygu Estyn. Roedd y Prif Weithredwr, Cadeirydd y Cyngor a Chadeirydd y Bwrdd Achredu AGA wedi cyfarfod â Phrif Arolygydd Estyn a Dirprwy Gyfarwyddwyr Addysg Llywodraeth Cymru i drafod y trefniadau'n fanwl. Roedd yr egwyddorion a'r gweithgareddau a gytunwyd yn sgil y cyfarfod hwn wedi'u hamlinellu ym mharagraffau 12 a 13.

16.5 Cyfeiriwyd yr aelodau at baragraff 14 a adroddodd fod y targedau derbyn cenedlaethol ar gyfer 2020-21 gan Lywodraeth Cymru wedi'u derbyn gan CGA. Gan ymateb i ymholiad aelod mewn perthynas â'r targedau a oedd wedi'u hatodi yn atodiad A, esboniodd Bethan Stacey fod swyddogion yn parhau i gysylltu â Llywodraeth Cymru gyda chymorth y Bwrdd Achredu AGA ynghylch sut câi'r targedau eu cyfrifo bob blwyddyn ac a oeddent yn addas at y diben ai peidio.

16.6 Roedd yr aelodau'n fodlon nodi'r adroddiad cynnydd.

17. Pasbort Dysgu Proffesiynol CGA 09/20

17.1 Cyflwynwyd yr adroddiad cynnydd gan Bethan Stacey ynghylch sefydlu Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) ar ran Llywodraeth Cymru.

17.2 Roedd adborth am y PDP wedi parhau i fod yn galonogol ac adroddwyd bod nifer y defnyddwyr newydd, ers mis Ebrill 2018, wedi cynyddu 532 y mis ar gyfartaledd. Roedd cyfanswm o 147,206 o drawiadau wedi bod ar dudalennau'r PDP ers ei lansio.

17.3 Amlygodd nifer o ddatblygiadau meddalwedd a gwelliannau PDP a oedd wedi digwydd fel yr amlinellir ym mharagraffau 3-5. Nododd fod swyddogion wedi cyfarfod â'r Dirprwy Gyfarwyddwr Addysg a'r Athro Mick Waters, a arweiniodd y gwaith o ddatblygu'r safonau addysgu ac arweinyddiaeth ar gyfer athrawon ysgol i drafod y datblygiadau sylweddol hyn. Adroddodd fod y cyfarfod wedi bod yn gadarnhaol iawn a bod y ddwy ochr yn llwyr gefnogol o'r gwaith gwella parhaus a oedd yn mynd rhagddo i wella'r PDP.

17.4 At hynny, nododd fod swyddogion wedi creu cynllun marchnata a chyfathrebu cynhwysfawr i hyrwyddo defnydd o'r PDP a'r gwelliannau sylweddol a oedd ar droed. Amlygodd yn arbennig y gwaith ymgysylltu sylweddol a oedd yn parhau i ddigwydd gyda darparwyr AGA i'w cynorthwyo a'u galluogi i wreiddio'r PDP yn eu rhaglenni.

17.5 Fel y nodwyd ym mharagraff 12, adroddodd Bethan Stacey fod swyddogion yn parhau i gydweithio ag unigolion sy'n gyfrifol am ddatblygu rhaglenni'r Llwybr Arweinyddiaeth a Llwybr Dysgu Cymorthyddion Dysgu (TALP). Roedd y Prif Weithredwr a Dirprwy Gyfarwyddwr Addysg Llywodraeth Cymru wedi mynychu cyfarfod Cyfarwyddwyr Addysg y consortia ar 13 Chwefror 2020 lle roedd nifer o gamau gweithredu cadarnhaol wedi'u cytuno, gan gynnwys cymorth i'r PDP gael ei wreiddio yn narpariaethau arweinyddiaeth y Consortia. Byddai'r aelodau'n parhau i dderbyn yr wybodaeth ddiweddaraf yn y maes gwaith hwn.

17.6 Gan ymateb i ymholiad aelod, nododd Bethan Stacey fod ymgysylltiad â'r PDP ar draws gwahanol gategorïau cofrestreion yn amrywio. Nododd ohebiaeth galonogol gyda'r Sector Dysgu Seiliedig ar Waith ond bod rhai heriau o ran ymgysylltu â'r sector AB, am fod gan nifer o golegau systemau tebyg a oedd yn eu lle cyn y PDP. Roedd y swyddogion yn parhau i gysylltu â chynrychiolwyr ar draws holl gategorïau cofrestru'r Cyngor.

17.7 Roedd yr aelodau'n fodlon derbyn yr adroddiad cynnydd a nodwyd yn arbennig y gwaith sylweddol oedd yn mynd rhagddo i wella proffil y PDP ymhellach.

18-21. Eitemau Er Gwybodaeth

Derbyniodd yr aelodau bapurau "Er Gwybodaeth", sef adroddiadau ar:

- Adolygiad Chwarterol (1 Hydref - 31 Rhagfyr 2019) **(CGA 10/20)**
- Adroddiad cynnydd Cyllido Sefydlu, DPC & MAA **(CGA 11/20)**
- Adroddiad cynnydd Data a Gwybodaeth **(CGA 12/20)**
- Ymatebion CGA i ymgynghoriadau allanol **(CGA 13/20)**

Yna symudodd y Cyngor i sesiwn breifat.

(Dilynwyd y cyfarfod gan sesiwn friffio ar y sector gwaith ieuenctid gan Tim Opie, *PYOG (Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid)*)